Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.08.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# GWOBRWYO: Gwobrau Twristiaeth Go North Wales 2022

Mae Gwobrau Twristiaeth Go North Wales, sy'n dathlu a chydnabod rhagoriaeth yn sectorau lletygarwch a thwristiaeth y rhanbarth, bellach ar agor ar gyfer ceisiadau. Os ydych chi'n ymwneud â diwydiant twristiaeth y rhanbarth, mae'r gwobrau hyn ar eich cyfer chi! Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://gonorthwalestourismawards.website/

# GWOBRYO: Gwobrau Merched sy’n Arloesi 2022/23: Digwyddiad Briffio 18 Awst 2022

Bydd Gwobrau Merched sy’n Arloesi 2022/23 Innovate UK yn agor ar 22 Awst 2022. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn hwb ariannol o £50,000 a phecyn pwrpasol o gymorth busnes, hyfforddiant a mentora. Ar 18 Awst 2022 (10:00am-12:30pm), cynhelir digwyddiad briffio ar-lein am gwmpas y gystadleuaeth, y broses ymgeisio, a’r gefnogaeth sydd ar gael i ymgeiswyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://ktn-uk.org/events/women-in-innovation-awards-2022-23-briefing-event/

# DIGWYDDIAD: Chwyldro Cylchol Cymru 2022 20 Medi 2022

Cynhelir cynhadledd y Chwyldro Cylchol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe ar 20 Medi 2022. Mae’r digwyddiad am ddim ar agor i fusnesau yng Nghymru sydd â diddordeb mewn archwilio egwyddorion economi gylchol yn eu cynnyrch, eu gwasanaethau a’u gweithrediadau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3BAeH6v

# CYFLE: Unedau busnes a gofod swyddfa ar osod

Mae’r safleoedd canlynol ar gael ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd:

- Uned 3 yng Ngweithdai Bryncir
- Swyddfa 6 ym Mentec yng nghanol dinas Bangor
- Uned G12 ym Mharc Menai, Bangor

- Y gwasanaeth caffi yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog
- Hen Storfa Bomiau, Glyn Rhonwy, Llanberis

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/UnedauGwynedd

## CYFLE: Gweithio gyda Chroeso Cymru

Mae canllaw newydd, sydd yn amlinellu pum ffordd y gall busnesau twristiaeth weithio gyda Croeso Cymru a manteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau, ar gael ar:

https://bit.ly/3bvOwD4

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru